

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL
(MEMORANDWM RHIF 2)

Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Mai 2021. Mae'r Bil bellach yn y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi a disgwylir iddo gael ei Drydydd Darlleniad ar 25 Hydref. Gellir cael copi o'r Bil yn: [Skills and Post-16 Education Bill \[HL\] publications - Parliamentary Bills - UK Parliament](#)

Amcan(ion) Polisi

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw darparu'r sail ddeddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer y diwygiadau a nodir yn y Papur Gwyn ar Sgiliau ar gyfer Swyddi. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ystyried bod y Bil yn ceisio gwella gweithrediad y system sgiliau ac addysg ôl-16 a chefnogi cyflwyno Gwarant Sgiliau Gydol Oes. Mae Llywodraeth y DU, drwy'r Bil hwn, yn dymuno cyflwyno mesurau i fynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o Addysg a Chyllid Ôl-18, i adeiladu ar nodau'r Adolygiad o Gymwysterau Ôl-16 ar Lefel 3 ac is, ac i gefnogi gweithredu diwygiadau Llywodraeth y DU i gymwysterau addysg dechnegol, megis cyflwyno Lefelau T (cyrsiâu sy'n cyfateb i 3 Safon Uwch ac yn cynnwys lleoliad diwydiant) a chymwysterau technegol uwch.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran Addysg.
5. Mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU, yn gwneud darpariaeth ar gyfer:
 - rhoi sail statudol i gynlluniau gwella sgiliau lleol;
 - rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg ddynodi cyrff sy'n cynrychioli cyflogwyr i arwain y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau gyda dyletswyddau ar ddarparwyr addysg bellach, addysg uwch a hyfforddiant annibynnol (ynghyd ag ysgolion ac academiâu yn Lloegr) i gydweithredu wrth ddatblygu'r cynlluniau a rhoi sylw iddynt;
 - gosod dyletswydd ar gorfforaethau addysg bellach (AB), corfforaethau coleg chweched dosbarth a sefydliadau dynodedig yn Lloegr i adolygu pa mor dda y mae'r addysg neu'r hyfforddiant a ddarperir gan y

sefydliad yn diwallu anghenion lleol, ac asesu pa gamau y gallai'r sefydliad eu cymryd i ddiwallu anghenion lleol;

- rhoi pŵer i'r Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol ddiffinio a chymeradwyo categorïau newydd o gymwysterau technegol sy'n gysylltiedig â safonau a arweinir gan gyflogwyr a galwedigaethau, a goruchwylio'r addysg dechnegol a gynigir ym mhob llwybr galwedigaethol, gan gynnwys mecanweithiau i reoli'r broses o ddatblygu cymwysterau;
- gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol yn ymwneud â chyflwyno Hawl i Fenthyciad Gydol Oes gan gynnwys newidiadau i bwerau gwneud rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu cyllid myfyrwyr er mwyn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer ariannu modiwlau addysg uwch (AU) a chyrsgiau AB ac ar gyfer rhagnodi'r uchafswm cyllid cyffredinol y gall dysgwyr ei gael;
- i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg wneud rheoliadau er mwyn sicrhau neu wella ansawdd hyfforddiant cychwynnol athrawon AB;
- rhoi y tu hwnt i amheuaeth allu'r Swyddfa Myfyrwyr i asesu ansawdd darparwyr AU yn Lloegr, a gwneud penderfyniadau ar gydymffurfio a chofrestru drwy gyfeirio at ofynion sylfaenol ar gyfer ansawdd;
- i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer rhestr o ddarparwyr addysg neu hyfforddiant ôl-16, yn enwedig Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol, i nodi pa ddarparwyr sydd wedi bodloni amodau sydd wedi'u cynllunio i atal neu liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â ddarparwr yn rhoi'r gorau i ddarparu addysg a hyfforddiant mewn ffordd afreolus;
- ymestyn y pwerau ymyrryd statudol sy'n gymwys i gorfforaethau AB, corfforaethau colegau chweched dosbarth a sefydliadau dynodedig o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg i ymyrryd lle bu methiant i ddiwallu anghenion lleol, ac i gyfeirio newid strwythurol lle mae angen hynny er mwyn sicrhau gwelliant; a
- gwneud diwygiadau i egluro a gwella gweithrediad y gyfundrefn ansolfedd AB ar gyfer cyrff AB, o ran defnyddio trefniadau gwirfoddol cwmnïau, cynlluniau trosglwyddo a dynodi sefydliadau.

Yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf

6. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 9 Gorffennaf 2021, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU. Gwnaeth y Memorandwm gadarnhau fy mod yn cefnogi cymal 14 ond roedd gennyf bryderon ynghylch y goblygiadau posibl i sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru sy'n deillio o gymalau 1 a 4.
7. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn (Memorandwm Rhif 2) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am welliannau a wnaed gan Lywodraeth y DU i gymalau 1 a 4 o'r Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 12 Hydref 2021.
8. Nid yw fy marn ar y cymalau hyn wedi newid.

Gwelliannau i'w nodi ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

9. Mae angen cydsyniad mewn perthynas â chymalau 1 a 4 sy'n ymdrin â chynlluniau gwella sgiliau lleol. Mae'r Memorandwm ar 9 Gorffennaf yn nodi effaith y cymalau hyn yn y Bil fel y'u cyflwynwyd i Senedd y DU. Cytunwyd ar welliannau i'r cymalau hyn yn ystod cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae rhifau cymalau yn ymwneud â'r fersiwn ddiweddaraf o'r Bil. Nid yw'n hysbys eto pa rai o'r gwelliannau hyn, os o gwbl, fydd yn aros yn y Bil.
10. Cymal 1 – Cynlluniau gwella sgiliau lleol: mae gwelliannau a wneir mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant technegol ôl-16 “a ariennir gan Loegr” (*English funded*) i is-adrannau (1), (2), (4)(b) a (6)(c) yn berthnasol i'r dyletswyddau a osodir gan Gymal 1 ar sefydliadau yng Nghymru. Bwriedir i'r gwelliannau hyn sicrhau mai dim ond mewn perthynas ag addysg neu hyfforddiant technegol ôl-16 a ariennir gan Loegr y mae'r dyletswyddau sy'n ymwneud â chynlluniau gwella sgiliau lleol yn gymwys. Mae'r gwelliannau i Gymal 4 yn diffinio beth yw “a ariennir gan Loegr”.
11. Cymal 4 – Dehongli: gwelliannau sy'n cyflwyno is-adrannau newydd (1A), (1B) ac (1C). Bwriedir i'r gwelliannau hyn sicrhau mai dim ond mewn perthynas ag addysg neu hyfforddiant technegol ôl-16 a ariennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu awdurdod yn Lloegr y mae Pennod 1 o Ran 1 o'r Bil yn gymwys. Mae hyn yn cynnwys cymorth i fyfyrwyr a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Pan fo addysg neu hyfforddiant o'r fath yn cael ei is-gontractio gan un darparwr i'r llall, mae'r ddau yn cael eu trin fel pe baent ei ddarparu.
12. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn nodi fy safbwynt ar y gwelliannau hyn.
13. Pan fo gwelliannau wedi'u gwneud i gymalau a oedd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd ac a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf fel rhai y mae rheol sefydlog 29.1(i) yn gymwys iddynt, nid yw ein safbwynt wedi newid o ran bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau hyn yn rhinwedd rheol sefydlog 29.1(i).

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a wnaed i'r Bil

14. Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn nodi fy mhryderon ynghylch gosod dyletswyddau ar sefydliadau yng Nghymru ac effeithiau posibl y dyletswyddau hynny. Mae fy swyddogion wedi ymgysylltu ag Adran Addysg Llywodraeth y DU i archwilio sut y gellid addasu'r Bil i ystyried y pryderon hynny. Er fy mod yn cael fy nghalonogi bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau i gyfyngu ar gwmpas addysg a hyfforddiant ôl-16 sy'n dod o fewn cwmpas y cynlluniau gwella

sgiliau lleol, nid yw'r gwelliannau y cytunwyd arnynt yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 12 Hydref yn mynd i'r afael yn ddigonol â'm pryderon.


15. Yn fy marn i, mae'r gwelliannau a wnaed i gymalau 1 a 4 o'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn cynyddu'r posibilrwydd y gallai sefydliadau yng Nghymru fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol ar gyfer Lloegr. Bydd y darpariaethau hefyd yn creu ansicrwydd i sefydliadau yng Nghymru ynghylch a allai eu darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16 fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a gynigir o dan Gymal 1 sy'n ymwneud â pharatoi a chyfrannu at gynlluniau gwella sgiliau lleol. Efallai na fydd sefydliadau'n gwybod a ystyrir bod rhai o'u cyrsiau yn "berthnasol" (*material*) i anghenion sgiliau ardal leol yn Lloegr. Gallai'r sefyllfa hon newid o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar nifer y myfyrwyr o Loegr sy'n dewis astudio mewn sefydliadau yng Nghymru. Mae hyn yn peri pryder arbennig gan fod y gwelliannau'n dod â chronfeydd cymorth i fyfyrwyr o fewn y diffiniad o beth yw addysg a hyfforddiant ôl-16 "a ariennir gan Loegr". At hynny, nid yw'r Bil yn diffinio ystyr addysg a hyfforddiant ôl-16 "technegol" (*technical*) ac mae'n agor y posibilrwydd y gallai ystod eang o gyrsiau ein sefydliadau addysg bellach ac uwch fod o fewn cwmpas dyletswyddau'r cynlluniau gwella sgiliau lleol.
16. Diben y cynlluniau gwella sgiliau lleol arfaethedig yw mynd i'r afael ag anghenion sgiliau ardaloedd lleol yn Lloegr. Rwyf yn bryderus y gallai gosod dyletswyddau ar sefydliadau yng Nghymru i roi sylw i anghenion sgiliau ardaloedd lleol yn Lloegr ddargyfeirio'r adnoddau oddi wrth y sefydliadau hynny sy'n ymateb i anghenion sgiliau Cymru. Nid wyf yn gwrthwynebu i sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru sy'n dewis ymrwymo i drefniadau ariannu gyda Llywodraeth y DU ar gyfer darpariaeth benodedig a Llywodraeth y DU yn atodi telerau ac amodau i gyllid o'r fath. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn bod gosod dyletswyddau statudol ar sefydliadau yng Nghymru naill ai'n angenrheidiol nac yn gymesur.

Goblygiadau ariannol

17. Y sefyllfa o hyd yw y gallai cymalau 1 a 4 fod â goblygiadau ariannol i sefydliadau yng Nghymru lle mae sefydliadau o'r fath yn darparu addysg neu hyfforddiant ôl-16 yr ystyrir ei fod yn berthnasol i ardal benodedig yn Lloegr. Mae'n anodd asesu maint goblygiadau o'r fath a allai godi yn sgil gofynion gweinyddol newydd sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir gan gymal 1 neu alwadau niferus am y cyllid a ddarperir gan Weinidogion Cymru. Bydd y goblygiadau i sefydliad unigol yn dibynnu p'un a ystyrir bod ei ddarpariaeth yn berthnasol i ardal benodedig yn Lloegr.

Casgliad

18. Fel y nodir uchod, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1 a 4 y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16. Er fy mod yn croesawu ymgysylltiad Llywodraeth y DU hyd yma o ran yr angen i wneud newidiadau i'r Bil fel y mae, credaf y bydd angen gwneud gwelliannau pellach i'r Bil i fynd i'r afael â'm pryderon ynghylch yr effeithiau posibl sy'n deillio o'r dyletswyddau y bwriedir eu rhoi ar sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg a hyfforddiant ôl-16.
19. Un o'r prif bryderon i Lywodraeth Cymru yw bod gosod dyletswyddau ar sefydliadau yng Nghymru yn fater sydd wedi'i ddatganoli. At hynny, gallai'r darpariaethau hyn osod beichiau diangen ar sefydliadau yng Nghymru. Gallai hyn arwain at ddargyfeirio adnoddau sefydliad yng Nghymru yn groes i'r gofyniad datganoledig i gyfeirio adnoddau mewn ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r rhai a nodwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yng Nghymru.
20. Nid yw gwelliannau arfaethedig Llywodraeth y DU i gymalau 1 a 4 yn mynd i'r afael â'm pryderon a nodir uchod. Ni allaf argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r darpariaethau hyn yn y Bil ar sail y gwelliannau a gyflwynwyd hyd yma.
21. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau'r Bil a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd fel y bo'n briodol.



Jeremy Miles AS

**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
28 Hydref 2021**